Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Sant Baruc
# Rhodfa St Paul
# Y Barri
# Bro Morgannwg
# CF62 8HT

## Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymraeg Sant Baruc yn Y Barri, ym Mro Morgannwg.  Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal sy'n cynnwys y gymuned o'i chwmpas ac ardaloedd cyfagos. Sefydlwyd yr ysgol yn ei ffurf bresennol ym 1996 pan unwyd ysgol iau ac ysgol fabanod i wasanaethu'r ardal leol.

Mae'r ysgol yn datgan bod ychydig o'r disgyblion yn dod o ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn ddifreintiedig.  Daw'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion o ddalgylch mae'r ysgol yn ei ddisgrifio fel un sydd heb fod yn freintiedig nac yn ddifreintiedig.  Mae gan wyth y cant o'r disgyblion yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r canran cenedlaethol.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu drwy'r ysgol, gan gyflwyno'r Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2, gyda'r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol

Adeg yr arolygiad, roedd 234.5 o ddisgyblion (cyfwerth amser llawn) rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr o gymharu â 217 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2005.  Daw tua phedwar y cant o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.  Mae tua phedwar y cant o ddisgyblion o gefndir ethnig cymysg.  Mae 39 disgybl ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae saith aelod staff wedi ymuno â'r ysgol ers yr arolygiad diwethaf gan gynnwys y pennaeth a'r dirprwy bennaeth, sydd wedi bod yn eu swyddi er Medi 2010.  Bu newid sylweddol yng nghyfrifoldebau staff a'r uwch dîm rheoli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2009-2010 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Sant Baruc oedd £3,320, sy'n cymharu gydag uchafswm o £4,491 ac isafswm o £2,756 ar gyfer ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg.  Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 31ain uchaf o'r 46 ysgol gynradd ym Mro Morgannwg.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn hapus, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda;
- bod elfen o ragoriaeth yn safonau Cymraeg disgyblion a'u defnydd o'r iaith; a
- chaiff iechyd a lles y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod arweinwyr yr ysgol yn frwdfrydig ac yn cyfleu disgwyliadau uchel;
- bod holl aelodau staff yr ysgol yn rhannu'r un weledigaeth ar gyfer cynnal a chodi safonau;
- bod trefniadau hunan arfarnu newydd wedi dechrau cael effaith glir ar ddeilliannau; a
- bod yr ysgol yn adnabod a blaenoriaethu meysydd i'w gwella'n effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn sicrhau gwelliant pellach, mae angen i'r ysgol:

A1 barhau i ddatblygu'r gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol a gyflwynwyd yn ddiweddar;

A2 barhau i ddatblygu rôl monitro'r llywodraethwyr;

A3 barhau i rannu'r arfer orau mewn addysgu ar draws yr ysgol; a

A4 gwella trefniadau'r awr ginio.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu medrau Cymraeg, gan siarad yn gynyddol hyderus a defnyddio'r iaith ar bob achlysur. Maent yn defnyddio ffurfiau berfol cywir a phriod-ddulliau'r iaith yn effeithiol yn eu gwaith. Mae gwybodaeth y disgyblion am y Cwricwlwm Cymreig yn dda iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn darllen o leiaf ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, ac yn aml yn uwch. Maent yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn medru darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da ac yn ysgrifennu i safon uchel.

Mae medrau Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dda. Maent yn siarad yn hyderus, yn darllen yn gywir gyda mynegiant priodol. Maent hefyd yn ysgrifennu'n ddiddorol ac yn helaeth, gan ddefnyddio ystod eang o gyfryngau.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda, felly hefyd y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae cyflawniadau disgyblion mwy abl a thalentog yn dda.

Mae canlyniadau asesiadau statudol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn gyson uchel ac yn dangos tuedd ar i fyny. Yn 2010, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru yn yr holl bynciau craidd, sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd yr ysgol ar frig y teulu ymhob pwnc ond am fathemateg, lle'r oedd y canlyniadau yn drydydd yn y teulu.

Bu'r canran o ddisgyblion a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson uwch na'r teulu a Chymru dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn y Gymraeg, bu'r canlyniadau'n gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru, ac ar frig y teulu yn 2010.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y chwarteli uchaf dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r dangosydd pwnc craidd, (y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd) yn gyson yn y chwarter uchaf dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae canlyniadau asesiadau statudol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson uchel. Mae canlyniadau'r ysgol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ond maent yn dangos

bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig (lefel 4) yn yr holl bynciau craidd a'r dangosydd pwnc craidd.

Yn 2010 roedd y canran a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) y Gymraeg, y Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson uwch o gymharu â chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt y dangosydd cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel ddisgwyliedig yn gyson yn yr ail chwarter am yr holl bynciau craidd a'r dangosydd pwnc craidd.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniadau bechgyn o'u cymharu â'r merched. Er bod canlyniadau 2010 yn awgrymu bod gwahaniaethau mewn ysgrifennu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 gyda'r bechgyn yn perfformio'n sylweddol is na'r merched, roedd chwarter y bechgyn yn y dosbarth hwn ar y gofrestr anghenion arbennig.

**Lles: Da**

Un o gryfderau'r ysgol yw cwrteisi ac ymddygiad yr holl ddisgyblion. Mae'r disgyblion i gyd yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion yn mwynhau dysgu yn eu gwersi, yn cymryd rhan weithgar yn eu dysgu eu hunain ac yn cefnogi dysgu ei gilydd yn dda. Mae bron pob disgybl yn dangos cymhelliant a balchder yn eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gofal am ei gilydd.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ymwybodol o sut i gadw'u hunain yn iach a diogel, ac at bwy i droi os oes problem ganddynt. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn gydwybodol wrth ofalu am y plant iau yn ystod y gwasanaeth ysgol gyfan. Mae nifer fawr o'r disgyblion yn mwynhau amrywiaeth dda o weithgareddau fel pêl droed, pêl rhwyd a chlybiau eraill a drefnir wedi oriau ysgol.

Cyfradd presenoldeb yr ysgol yw 95%, sydd ychydig yn uwch na'r gyfradd genedlaethol. Mae cyfradd presenoldeb yn gryfder arall yr ysgol gan fod y gyfradd wedi bod yn 95% yn gyson am y pedair blynedd ddiwethaf. Mae absenoldeb yn cael ei fonitro'n effeithiol. Bron yn ddieithriad, mae prydlondeb yn dda.

Mae'r cyngor ysgol yn fforwm llwyddiannus i'r disgyblion gynnig gwelliannau i'r ysgol. Mae syniadau'r disgyblion yn cael sylw dilys gan arweinwyr yr ysgol. Mae'r pwyllgor eco, sydd newydd ei sefydlu, yn dechrau cael dylanwad ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol pob disgybl yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau dysgu cyfoethog sy'n ateb anghenion disgyblion yn briodol. Mae darpariaeth eang o brofiadau dysgu yn atgyfnerthu anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Caiff y bechgyn a'r

merched gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd. Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r medrau yn effeithiol iawn.

Mae'r athrawon yn addysgu darllen yn llwyddiannus yn y Cyfnod Sylfaen. Serch hynny, mae'r rhaglen ddarllen yn dibynnu gormod ar y cynllun masnachol ac nid oes bob amser digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddarllen ystod eang o lyfrau.

Mae gan y ddarpariaeth ar gyfer datblygu iaith Gymraeg yr holl ddisgyblion nodweddion rhagorol. Mae'r cynllun gwobrwyo 'Cymry Cŵl' yn effeithiol iawn, ac o ganlyniad Cymraeg yw iaith y buarth yn ogystal ag iaith yr ystafell ddosbarth. Mae'r athrawon yn hybu'r Cwricwlwm Cymreig yn dda iawn. Maent yn cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn eu gwersi a gwelir nifer o arddangosfeydd lliwgar tu fewn a thu allan i'r ysgol yn hyrwyddo'r diwylliant Cymreig, er enghraifft gwelir yr anthem genedlaethol ar fur allanol yr ysgol a storïau Gelert a Blodeuwedd mewn arddangosfeydd yn y neuadd. Maent hefyd yn trefnu clybiau ar ôl ysgol sy'n hybu'r Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus iawn.

Ceir darpariaeth dda i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd. Mae'r athrawon yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o'u cyfrifoldebau nhw ac eraill mewn cymdeithas ac yn y byd yn effeithiol. Mae hyn yn cael ei gryfhau ym Mlynyddoedd 5 a 6 gan y gwaith sy'n seiliedig ar bapur newyddion 'First News'.

**Addysgu: Da**

Un o gryfderau'r ysgol yw ansawdd yr addysgu, sy'n gyson dda ac yn diwallu anghenion pob disgybl yn y dosbarthiadau. Mae gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel o ran safonau ac ymddygiad y disgyblion. Yn y gwersi gorau, maent yn cynllunio ac yn darparu gwersi diddorol sydd â nodau dysgu eglur a phriodol. Maent yn cyflwyno gwersi bywiog sy'n ennyn brwdfrydedd y disgyblion. Mae'r holl athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu effeithiol ac yn cynnig modelau iaith da i'r disgyblion. Mae'r defnydd cyson o gwestiynu treiddgar yn y gwersi gorau yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion yn dda.

Mae'r holl athrawon yn cynnig adborth manwl i ddisgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r adborth adeiladol hwn yn galluogi'r disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn sydd angen i'w ddatblygu ymhellach. Mae'r system tracio effeithiol yn sicrhau fod athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion ac yn ymyrryd pan fo angen. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn llwyddiannus, ond nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn hybu'r disgyblion i asesu perfformiad eu hunain ac eraill mewn modd adeiladol.

Nodwedd gref arall yw'r berthynas agos sy'n bodoli rhwng y staff addysgu, staff cynorthwyol a'r disgyblion, ac mae hyn yn cyfrannu at yr awyrgylch gweithgar a chydweithredol a welwyd yn y rhan fwyaf o'r gwersi. Mae'r holl staff cynorthwyol yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â'r athrawon yn yr ystafell ddosbarth ac maent yn ymyrryd yn briodol i gefnogi'r dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau cynhwysfawr i'r rhieni ar gynnydd eu plant. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi meysydd i'w gwella mewn iaith a mathemateg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus iawn gydag ethos gofalgar a chyfeillgar. Mae gofal tyner holl staff yr ysgol yn creu awyrgylch deuluol sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r holl athrawon yn darparu profiadau dysgu symbylol sy'n hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwasanaethau ysgol gyfan yn creu naws Gristnogol briodol ac ethos myfyrgar. Mae'r ysgol yn casglu tuag at lawer o achosion da a chyfrifoldeb y disgyblion yw penderfynu pa elusen fydd yn elwa.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn dda. Anogir disgyblion i fwyta ac yfed yn iach a darperir ffrwythau yn ystod amser egwyl. Mae'r disgyblion yn cadw poteli dŵr yn eu dosbarthiadau.

Mae ystod lawn o bolisïau a threfniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer hyrwyddo byw yn iach a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant.

Mae'r polisi ar gyfer cynhaliaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn glir, ac mae'r gweithdrefnau yn effeithiol. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n dda ac mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i lunio strategaethau cymorth addas. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda os fydd eu plentyn ag unrhyw anhawster ac fe gaiff cynlluniau addysg unigol eu harfarnu a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth dda i ddisgyblion ar fynediad i'r ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn rhaglen bontio effeithiol gydag Ysgol Gyfun Bro Morgannwg.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r cwricwlwm a ddarperir yn yr ysgol yn gwbl hygyrch i bob disgybl, beth bynnag fo'i ryw, hil neu grefydd. Mae'r ysgol yn bodloni ei ddyletswyddau statudol. Dywedodd bron pob disgybl fod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae pob rhan o'r ysgol yn ddeniadol, yn groesawgar, ac yn cynnig amgylchedd ddysgu ysgogol. Mae'r muriau'n llawn o arddangosfeydd pwrpasol, lliwgar ac amrywiol. Gwneir defnydd da o'r ardaloedd tu allan i'r ysgol gan ddosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn creu naws Gymreig yn effeithiol wrth arddangos murluniau diddorol ar y buarth ac o gwmpas yr ysgol. Cedwir yr adeilad mewn cyflwr da gyda phob man yn ddestlus. Mae'r cyflenwad adnoddau yn dda. Fodd bynnag, cyfyng yw'r adeilad.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol a llwydda i gyfleu'r weledigaeth honno i'r holl staff mewn ffordd ddidwyll a thryloyw gan roi cyfeiriad strategol pwrpasol i fywyd a gwaith yr ysgol. Cydweithia'n effeithiol gyda'r dirprwy a'r uwch dîm rheoli er mwyn datblygu'r ysgol mewn ffordd sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n dda. Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff trwy system rheoli perfformiad effeithiol.

Mae gan y corff llywodraethol ymwybyddiaeth briodol o berfformiad yr ysgol. Cynigia gefnogaeth addas a chyflawna'i ddyletswyddau yn gydwybodol. Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn cydweithio'n effeithiol. Gyda'i gilydd, maent wedi sefydlu trefniadau effeithiol yn ddiweddar ar gyfer dosrannu cyfrifoldebau pwnc neu faes sy'n cynorthwyo'r gweithdrefnau monitro a phennu targedau. Nid oes digon o amser wedi bod eto ar gyfer mesur gwir effaith pob elfen o'r broses hon.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r agweddau sydd yn y cynllun datblygu ysgol yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r staff yn cydweithio'n agos gydag ysgolion y clwstwr i ddatblygu elfennau cwricwlaidd a datblygiad staff. Mae'r ysgol yn ymgorffori egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn briodol ac mae Cwricwlwm 2008 a'r Fframwaith Sgiliau yn gweithredu'n effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunan arfarnu o ansawdd da ac mae'n adnabod yn glir y mwyafrif o'r agweddau i'w datblygu o fewn yr ysgol.

Sefydlwyd strwythur newydd ar gyfer hunan arfarnu yn ddiweddar. Mae'n broses gynhwysfawr ac effeithiol. Mae deilliannau'r broses hon wedi dechrau dylanwadu'n briodol ar y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.

Cynhyrchir y cynllun datblygu ysgol, sydd o ansawdd da, ar sail arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o fewn y broses hunan arfarnu. Mae blaenoriaethau priodol wedi eu cynnwys yn ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i'r argymhellion o fewn adroddiad yr arolygiad diwethaf.

Mae'r athrawon yn perthyn i nifer dda o rwydweithiau o arfer broffesiynol o fewn y sefydliad ac yn ehangach gydag ysgolion eraill y clwstwr. Mae'r rhwydweithiau hyn yn dechrau dylanwadu'n bositif ar gynllunio ac ar ddatblygu rhai egwyddorion addysgu diweddar o fewn yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiad cryf ag ystod o bartneriaid gwahanol.  Mae'n derbyn cefnogaeth effeithiol oddi wrth yr awdurdod lleol, er enghraifft wrth sefydlu gweithdrefn hunan arfarnu ac wrth fynd i'r afael â datblygu sgiliau sylfaenol a'r Gymraeg.

Manteisir ar y cysylltiad agos iawn sy'n bodoli gydag Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, i gydweithio ar brosiectau penodol, er enghraifft datblygu strategaeth newydd ar gyfer addysgu'r Gymraeg.  Mae cynllun trosglwyddo effeithiol wedi ei sefydlu'n gadarn, sy'n cynnwys ymweliadau pontio, cyfle i gael mynediad at adnoddau, a chymryd rhan mewn prosiectau a gwersi sy'n anodd eu cyflwyno mewn ysgol gynradd, er enghraifft defnyddio'r caeau chwaraeon a'r gampfa.  Mae trefniadau effeithiol hefyd yn bodoli ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar y cyd.

Mae cydweithio agos gyda'r cylch Ti a Fi sy'n cyfarfod yn wythnosol yn yr ysgol ac mae cyswllt da gyda sefydliadau addysgol eraill, megis UWIC a Choleg Y Barri.

Mae perthynas gref gyda rhieni ac aelodau eraill yn gymuned sy'n gwirfoddoli i helpu gyda darllen, cefnogi dysgu a chynorthwyo ar deithiau addysgol.  Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon weithgar sy'n trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer adnoddau.  Gwerthfawroga'r rhieni'r cylchlythyr wythnosol sy'n cael ei anfon gan yr ysgol er mwyn eu hysbysu am lwyddiannau'r disgyblion a digwyddiadau pwysig.

Mae'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned leol yn dda.  Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag amryw o ymwelwyr a gwasanaethau i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion, megis yr athrawesf, gwasanaeth cerddoriaeth Y Fro, yr heddlu, swyddog chwaraeon yr Urdd, cynrychiolydd Cymorth Cristnogol a swyddog Campau'r Ddraig.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae adnoddau staffio'r ysgol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithlon i wella'r dysgu.  Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol profiadol i ymdrin â phob agwedd o waith yr ysgol.  Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol i'r disgyblion.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithlon o'u hamser dyladwy ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safon y cynllunio.  Defnyddir arbenigeddau staff i gefnogi o fewn meysydd y cwricwlwm a chynnig hyfforddiant mewnol priodol.  Mae rheolwyr yn sicrhau bod digon o adnoddau o ansawdd dda ar gyfer diwallu anghenion y disgyblion a bod yr adeilad a thir yr ysgol yn lân a thrwsiadus ac yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial.  Er bod gofod yn brin, gwneir y defnydd gorau ohono.  Serch hynny, nid yw'r holl drefniadau amser cinio yn addas, gan nad yw pob disgybl yn medru eistedd wrth fwrdd i fwyta.

Defnyddir y gyllideb yn effeithlon wrth ymateb i'r blaenoriaethau a osodwyd o fewn y cynllun datblygu ysgol.  Gwneir defnydd priodol o'r cyllid sydd ar gael.  Mae'r swm sylweddol o arian wrth gefn ar hyn o bryd wedi ei glustnodi ar gyfer ariannu addasiadau i'r adeiladau a phrynu adnoddau ychwanegol yn y dyfodol agos.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ystyried cynnydd a deilliannau da'r dysgwyr, ynghyd â'r defnydd priodol o'r cyllid.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron y disgyblion**

Cwblhaodd 103 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol dau'r holiadur a siaradodd y tîm â disgyblion yn ystod yr arolygiad.

Mae bron pob disgybl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod yr ysgol yn eu dysgu i sut i aros yn iach, yn gwybod at bwy i droi os ydyn nhw'n poeni neu'n gofidio a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod ganddynt lawer o gyfleoedd yn yr ysgol i ymarfer y corff yn rheolaidd. Maent yn gwybod beth i'w wneud ac at bwy i droi os ydyn nhw'n gweld y gwaith yn anodd. Cred y rhan fwyaf o ddisgyblion bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hefyd o'r farn bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn eu helpu i ddeall eu gwaith yn yr ysgol a bod digon o adnoddau ar gael er mwyn iddyn nhw wneud eu gwaith.

Mae llawer o'r disgyblion hefyd o'r farn bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y gwersi fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae lleiafrif o'r disgyblion o'r farn nad yw pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio a bod ymddygiad plant yn amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith.

**Holiaduron y rhieni**

Dychwelwyd 56 o holiaduron.

Mae'r rhieni i gyd naill ai yn fodlon neu yn fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol ac yn nodi bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Maent o'r farn hefyd bod yr addysgu'n dda a bod eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda yno pan ddechreuon nhw yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r rhieni a ymatebodd o'r farn bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent hefyd yn mynegi'r farn bod gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Credant fod y disgyblion yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhieni hefyd yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiynau i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Cred y rhan fwyaf o rieni bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'u bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Maent yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda a bod staff yr ysgol yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni o'r farn bod y gwaith sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol a bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.

Mae llawer o'r rhieni yn teimlo eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.  Credant hefyd bod yr ysgol yn trefnu amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.

Mae lleiafrif o rieni o'r farn nad yw eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Sian Hart | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhian Andrew | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |